

Everolimus i atal y corff rhag gwrthod organau yn ystod triniaeth i drawsblannu'r afu/iau

Gorffennaf 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid argymhellir everolimus (Certican) ar gyfer atal [organau rhag cael eu gwrthod](#) mewn pobl sy'n cael triniaeth i drawsblannu afu/iau.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os ydych eisoes yn cymryd everolimus ar gyfer atal organau rhag cael eu gwrthod ar ôl triniaeth i drawsblannu afu/iau, dylech allu parhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Nid oedd yn glir o'r dystiolaeth a yw defnyddio everolimus yn darparu digon o fanteision i gleifion i gyfiawnhau ei gost uchel, felly nid argymhellwyd y dylid ei ddefnyddio.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae methiant yr iau/afu yn digwydd pan na fydd yr afu/iau yn gallu trwsio ei hun a bydd yn rhoi'r gorau i weithio'n effeithiol. Ymhlith y prif ffactorau sy'n ei achosi mae haint o'r enw hepatitis, afiechyd (megis sirosis) a gwenwyn parasetamol. Mae symptomau afu/iau sy'n methu yn cynnwys croen coslyd iawn a melyn, colli pwysau, bol wedi chwyddo a charthion du.

Os bydd yr afu/iau wedi niweidio cymaint fel y gallai fethu'n llwyr, mae'n bosibl yr ystyrir cynnal llawdriniaeth trawsblannu afu/iau. Caiff yr afu/iau ei dynnu a gosodir afu/iau iach gan roddwr dynol yn ei le. Gan fod yr afu/iau yn dod o berson arall, mae system imiwnedd y corff yn sylweddoli ei fod yn wahanol ac yn ceisio ei ddinistrio (ei wrthod). Felly, ar ôl llawdriniaeth trawsblannu afu/iau, bydd yn rhaid i chi gymryd meddyginiaeth am weddill eich bywyd i atal eich corff rhag gwrthod yr afu/iau newydd.

Mae everolimus (Certican) yn gyffur sy'n atal system imiwnedd y corff rhag gwrthod yr afu/iau newydd.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 0800 652 7330, www.britishlivertrust.org.uk
- Liver4Life, 0800 074 3494, www.liver4life.org.uk
- Cymdeithas Trawsblannu Afu/Iau Addenbrooke, www.alta.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1412-8